***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 1365

# Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Diwygio) (Cymru) 2021

## RHAN 3

## DIWYGIADAU I REOLIADAU ADDYSG UWCH (CYRSIAU CYMHWYSOL, PERSONAU CYMHWYSOL A DARPARIAETH ATODOL) (CYMRU) 2015

### PENNOD 1

### Cyflwyniad

**10.** Mae Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015(**1**) wedi eu diwygio yn unol â'r Rhan hon.

### PENNOD 2

### Hawliau dinasyddion a meini prawf preswyliad

**Diwygiadau i'r Atodlen**

**11.** Yn yr Atodlen—

(a) ym mharagraff 1(1), yn y diffiniad o "person sydd â hawliau gwarchodedig"—

(i) mae'r testun presennol ar ôl "yw—" wedi ei rifo'n baragraff (1) o'r diffiniad hwnnw;

(ii) yn y paragraff hwnnw fel y'i rhifwyd felly, hepgorer y "neu" terfynol ar ddiwedd is-baragraff (a)(ii), ac ar ôl is-baragraff (a)(iii) mewnosoder—

"(iv) sydd fel arall â hawliau y bernir eu bod yn gymwys yn rhinwedd unrhyw ddarpariaethau tybio hawliau dinasyddion; neu";

(iii) ar ôl y paragraff hwnnw fel y'i rhifwyd felly, mewnosoder—

"(2) Ym mharagraff (1)(iv) ystyr "darpariaethau tybio hawliau dinasyddion" yw—

(a) Erthygl 18(2) a (3) (dyroddi dogfennau preswylio) o'r cytundeb ymadael â'r UE;

(b) Erthygl 17(2) a (3) (dyroddi dogfennau preswylio) o gytundeb gwahanu EFTA yr AEE (fel y diffinnir "EEA EFTA separation agreement" yn adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020); neu

(c) Erthygl 16(2) a (3) (dyroddi dogfennau preswylio) o'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd."

(**1**) O.S. 2015/1484 (Cy. 163), a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/276 (Cy. 100); O.S. 2018/814 (Cy. 165); O.S. 2019/235 (Cy. 54); O.S. 2019/1192 (Cy. 209); O.S. 2020/1302 (Cy. 287); O.S. 2021/9 (Cy. 4) ac O.S. 2021/481 (Cy. 148).

(b) ym mharagraff 2A(1)(a) a (b), yn lle "ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs" ym mhob achos rhodder "ar y diwrnod y mae tymor cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf yn dechrau mewn gwirionedd";

(c) ym mharagraff 3—

(i) yn is-baragraff (1)(a)(iii)(bb), ar ôl "2020" mewnosoder "neu fel arall mae ganddo hawliau y bernir eu bod yn gymwys yn rhinwedd unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau hawliau dinasyddion a bennir yn is-baragraff (3)";

(ii) yn is-baragraff (1)(a)(iii)(cc), ar ôl "cyfnod perthnasol" mewnosoder "neu fel arall mae ganddo hawl dybiedig i breswylio'n barhaol yn rhinwedd unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau hawliau dinasyddion a bennir yn is-baragraff (3)";

(iii) ar ôl is-baragraff (2) mewnosoder—

"(3) At ddibenion is-baragraff (1)(a)(iii), y darpariaethau hawliau dinasyddion y cyfeirir atynt yw—

(a) Erthygl 18(3) (dyroddi dogfennau preswylio) o'r cytundeb ymadael â'r UE;

(b) Erthygl 17(3) (dyroddi dogfennau preswylio) o gytundeb gwahanu EFTA yr AEE (fel y diffinnir "EEA EFTA separation agreement" yn adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020); neu

(c) Erthygl 16(3) (dyroddi dogfennau preswylio) o'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd."

PENNOD 3

Cymhwystra dinasyddion Gwyddelig yn yr AEE a'r Swistir

**Diwygiad i reoliad 4**

**12.** Yn rheoliad 4—

(a) ym mharagraff (3A), yn lle "paragraff 8A neu 9B" rhodder "paragraff 8A, 9B neu 9BA";

(b) ym mharagraff (9)(a), ar ôl "9B," mewnosoder "9BA,".

**Diwygiad i'r Atodlen**

**13.** Yn yr Atodlen, ar ôl paragraff 9B mewnosoder—

"**Dinasyddion Gwyddelig yn yr AEE a'r Swistir**

**9BA.**—(1) Person—

(a) sy'n ddinesydd Gwyddelig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;

(b) a oedd yn preswylio fel arfer yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu—

(i) yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a thiriogaethau tramor yr UE, neu

(ii) yn y Deyrnas Unedig, pan ddechreuodd y preswyliad arferol hwnnw ar ôl 31 Rhagfyr 2017 yn union ar ôl cyfnod o breswyliad arferol yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a thiriogaethau tramor yr UE;

ac sydd wedi parhau i breswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a thiriogaethau tramor yr UE drwy gydol y cyfnod sy'n dechrau ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu ac yn dod i ben yn union cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;

(c) sy'n ymgymryd â'r cwrs yn y Deyrnas Unedig;

(d) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac

(e) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), nad yw ei breswyliad arferol yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (d) wedi bod yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.

(2) Nid yw paragraff (e) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson a gaiff ei drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor yn unol â pharagraff 1(3).

(3) Yn y paragraff hwn, ystyr "tiriogaethau tramor yr UE" yw Aruba; Ynysoedd Ffaröe; Polynesia Ffrengig; Tiriogaethau Deheuol ac Antarctig Ffrainc; Mayotte; Kalaallit Nunaat (Greenland); Antilles yr Iseldiroedd (Bonaire, Curaçao, Saba, Sint Eustatius, Sint Maarten); St Barthélemy; St Pierre et Miquelon; Tiriogaeth Caledonia Newydd a Thiriogaethau Dibynnol; a Wallis a Futuna."